# GWOBR CYMDEITHAS OWAIN GLYNDŴR I GYN-FYFYRWYR

## CEFNDIR

Yn 2010, cafodd Prifysgol Glyndŵr rodd o hambwrdd arian gan Gymdeithas Owain Glyndŵr, i'w ddyfarnu er anrhydedd i gyn-fyfyriwr y Brifysgol.

Bydd yr hambwrdd yn cael ei arddangos yn llyfrgell y Brifysgol a bydd enw'r enillydd bob blwyddyn yn cael ei nodi ar fwrdd ochr yn ochr ag o.

## MEINI PRAWF GWOBR BENODOL

Rydym yn falch o enwi ein prifysgol ar ôl gŵr a oedd yn coleddu dysg, yn caru ei wlad, yn cofleidio agwedd ryngwladol, ac yn gyson ddangos ymagwedd ysbrydoledig a mentrus at fywyd. Mae ei ysbryd wrth galon Prifysgol Glyndŵr ac felly dyfarnir y wobr i gyn-fyfyriwr cymwys sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

- hyrwyddo dysg ac addysg
- hyrwyddo dysg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- hyrwyddo Cymru
- gwella cysylltiadau rhyngwladol
- menter ac arloesedd

Gall cyn-fyfyrwyr cymwys enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan unigolyn* neu sefydliad arall. Bydd gofyn i unrhyw un sy'n gwneud enwebiad ddarparu rhesymau penodol dros ei enwebiad ar y ffurflen enwebu. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyfer yr enillydd yn cael ei wneud gan Bwyllgor y Gwobrau.

* nad oes rhaid iddo/iddi fod yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Glyndŵr

## RHEOLIADAU GWOBRAU'R BRIFYSGOL

- I fod yn gymwys am wobr, rhaid i enwebeion fod wedi astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr neu yn un o'i sefydliadau rhagflaenol ac wedi cael gwobr gan Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru, Prifysgol Caer, Edexcel neu un o'i chyrsiau Proffesiynol. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholegau/Sefydliadau Partner, nac ychwaith graddau a addysgir yn llwyr drwy ddysg ar-lein o bell.

- Mae gwobrau ar gael i cynfyfyrwyr llawn amser a rhan amser oedd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Glyndŵr neu unrhyw un o'i sefydliadau blaenorol, yn amodol arnyn nhw’n bodloni'r meini prawf cymhwyster fel y'u nodir yn y rheoliadau gwobr unigol.

- Os oes mwy nag un cyn-fyfyriwr teilwng, caiff enwau pob cyn-fyfyriwr llwyddiannus eu hysgythru ar fwrdd wrth ochr yr hambwrdd a bydd pob cynfyfyriwr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif wobr Prifysgol Glyndŵr.

- Os yw cynfyfyriwr llwyddiannus yn gymwys am fwy nag un wobr (fel cynfyfyriwr neu fel myfyriwr) fe'u hargymellir fel arfer ar gyfer un wobr yn unig, oni bai bod gwahaniaeth penodol yn y meini prawf dyfarnu sy'n cyfiawnhau dyfarnu mwy nag un wobr

- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymatal rhag dyfarnu gwobr arbennig os, mewn unrhyw flwyddyn, ystyrir na chafodd y lefel gyflawniad angenrheidiol ei gyrraedd.

- Ni ellir ystyried cyn-fyfyriwr am y wobr os na thalodd ei ffioedd yn llawn ac unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus i Brifysgol Glyndŵr neu unrhyw un o'i sefydliadau rhagflaenol, gan gynnwys dychwelyd unrhyw offer neu eitemau llyfrgell a fenthycwyd.

- Dim ond unwaith y flwyddyn y caiff cynfyfyrwyr eu henwebu/ cânt eu henwebu eu hunain.

- Gellir enwebu cynfyfyrwyr/caiff cynfyfyrwyr eu henwebu eu hunain mewn unrhyw nifer o flynyddoedd, gan gynnwys y cyn-fyfyrwyr hynny sy'n enillwyr blaenorol, cyhyd ag y bydd pob enwebiad ar gyfer cyflawniad rhagorol gwahanol.